

# Sêr y 70au a'r 80au yn dod i Arena'r Rhyl ar gyfer Gŵyl Nostalgia 2017

Dewch i ddathlu cerddoriaeth y 70au a'r 80au yn yr Wyl Nostalgia a gynhelir yn Arena Ddigwyddiadau'r Rhyl ddydd Sul 13 Awst, 2017, o 12.00pm tan 6.00pm.

Mae hwn yn ddigwyddiad rhad ac am ddim a bydd yn atgoffa'r mynychwyr o'r amseroedd da a gawsant yn tyfu i fyny gyda rhai o fandiau mwyaf eiconig y ddegawd gan gynnwys The Christians, Dr and the Medics, Aswad, Odyssey a band teyrnged Ska Brittainia Mae bandiau eraill yn aros i gael eu cyhoeddi hefyd.

Dywedodd Jamie Groves, Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai "Rydw i'n falch iawn o groesawu'r Wyl Nostalgia i Arena Ddigwyddiadau'r Rhyl. Bydd y rhaglen thema newydd a'r oriau estynedig yn siŵr o gael croeso mawr gan y gymuned.

"Dim ond un o uchafbwyntiau rhaglen ddigwyddiadau'r haf yw'r Wyl Nostalgia a'i rhestr o berfformwyr gwych ac mae'n ein galluogi i ddenu ymwelwyr a fydd, yn eu tro, yn gwario yn ein siopau, barau, bwytai a'n lletyau. Rydym am weld mwy a mwy o bobl yn dod i ddarganfod y Rhyl a chyfrannu at ein heconomi.

"Gyda chefnogaeth barhaus Cyngor Tref y Rhyl rydw i'n falch ein bod yn gallu darparu diwrnod o hwyl i'r teulu am ddim. Mae'r digwyddiadau hyn wedi'u hanelu at bobl leol cymaint ag ymwelwyr ac mae'n arbennig o bwysig ein bod yn cynnal digwyddiadau ar gyfer teuluoedd yn ystod yr haf. Rwy'n annog pawb i ddod draw a mwynhau Gŵyl Nostalgia 2017."

Dywedodd Clive Jackson o Dr & The Medics: "Un o fy hoff bethau am yr Haf yw'r holl wyliau cerddorol sy'n cael eu cynnal!

"Mae gwyliau cerddorol yn golygu llawer i mi gan eu bod yn tynnu pobl a chymunedau at ei gilydd i ddathlu a mwynhau cerddoriaeth!

"Rydym yn methu â disgwyl cael dychwelyd i'r Rhyl i berfformio fel rhan o Wyl Nostalgia 2017. Byddwn yn chwarae set lawn o ganeuon gwych o'r 80au y bydd pawb yn eu hadnabod ac sydd wedi cael ychydig o driniaeth y Medics! Mae'r band yn dathlu ei ben-blwydd yn 35 eleni felly rydym yn edrych ymlaen at eich gweld i gyd yno i ddathlu yn yr haul (nid yw byth yn bwrw glaw pan ydym yn chwarae!) gyda ni!"

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Chanolfan Groeso'r Rhyl ar 01745 355068